Imiwneiddiwch eich plentyn mewn pryd

Mae imiwneiddio yn parhau i fod yn un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o warchod ein plant rhag ystod o afiechydon a allai fod yn ddifrifol, fel y frech goch. Er mwyn cael yr amddiffyniad gorau, mae'n hanfodol ein bod yn derbyn ein brechiadau mewn da bryd - mae hyn yn parhau i fod yn wir yn ystod y pandemig COVID-19 cyfredol.

Mae adeiladau gofal iechyd ledled Gogledd Cymru wedi rhoi mesurau llym ar waith i sicrhau y gall clinigau imiwneiddio weithredu'n ddiogel.

Os yw'ch plentyn i fod i gael ei imiwneiddio ac mae gennych gwestiynau neu bryderon ynghylch mynd i'ch practis meddyg teulu, cysylltwch â nhw neu'ch ymwelydd iechyd a fydd yn gallu tawelu eich meddwl. Byddai'n well o lawer ganddynt ichi eu ffonio nag oedi cyn i'ch plentyn gael ei imiwneiddio.

Mae imiwneiddiadau pwysig y mae angen eu rhoi mewn pryd i fenywod beichiog hefyd, gan gynnwys brechlyn y pâs a'r ffliw tymhorol (yn ystod misoedd y gaeaf), sy'n helpu i warchod iechyd y fam a'r babi. Cynghorir menywod beichiog i siarad â'u bydwragedd neu eu meddygon teulu os oes ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon.

I gael cyngor a gwybodaeth gyffredinol ar imiwneiddio, gan gynnwys fideos rhyngweithiol ac animeiddiad i blant, ewch i dudalennau gwe imiwneiddiadau BIPBC a lansiwyd yn ddiweddar: https://bipbc.gig.cymru/gwybodaeth-a-chyngor-iechyd/imiwneiddio/



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales